AMGUEDDFA CYMRU

## Cofnodion wedi'u cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:**<br>**Title of meeting:** | **Amgueddfa Cymru – Cyfarfod Agored Bwrdd yr Ymddiriedolwyr** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br>**Date of Meeting:** | **Dydd Iau 14 Rhagfyr 2023 o 9:00 hyd 12:00** |
| **Lleoliad:**<br>**Venue:** | **Ystafell Bwyllgor Sain Ffagan, a thrwy Teams** |
| **Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol:** | Kate Eden, Cadeirydd<br>Rhys Evans<br>Hywel John<br>Yr Athro John Hunt<br>Ameerah Mai<br>Owen Hathway, Ymddiriedolwr<br>Catherine Duigan, Ymddiriedolwr<br>Richard Thomas, Ymddiriedolwr<br>Rachel Hughes<br>Abigail Lawrence<br>Michael Prior<br>Cai Wilshaw<br>Freya Stannard |
| **Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Jane Richardson, Prif Weithredwr<br>Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro<br>Phil Bushby, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol<br>Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus<br>Nia Elias, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes<br>Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil<br>Janice Lane, Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr. |
| **Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:** | Elizabeth Connolly (Pennaeth Adnoddau Dynol)<br>Rhodri Davies, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu<br>Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant, Llywodraeth Cymru<br>Phillip Roberts, Tîm Nawdd Llywodraeth Cymru<br>Ioan Davies (Cyfieithydd)<br>Sian Jones (Cyfieithydd Zoom) |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant. |

| | |
|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol |

**Eitem 1. Agor y cyfarfod**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr olwg newydd ar yr agenda a oedd bellach wedi'i rhannu'n adrannau a oedd yn cynnwys, Corfforaethol, Strategol, Safleoedd a Phrojectau Mawr a Llywodraethu. Yn ogystal, roedd templed newydd ar gyfer yr adroddiad hefyd wedi'i lunio a byddai croeso i unrhyw fyfyrdodau ar y rhain ar ôl y cyfarfod.

3. I arsylwyr ar-lein, amlygodd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi cyfarfod ddoe a chael trafodaethau llawn a chadarnhaol ynghylch rhagolwg ariannol 2024/2025, wedi edrych ar opsiynau ar gyfer cynhyrchu incwm, a derbyn cyflwyniad ar ymchwil ar draws Amgueddfa Cymru.

4. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod nifer o ffarwelion heddiw a chydnabu mai hwn fyddai cyfarfod olaf yr Ymddiriedolwyr Catherine Duigan, Rachel Hughes a Michael Priors gan y byddent yn rhoi'r gorau i'w rolau fel ymddiriedolwyr yr Amgueddfa ar 31 Rhagfyr 2023. Roedd yn cadarnhau ymhellach y byddai'n dweud mwy i gydnabod hyn ar ddiwedd y cyfarfod.

**Eitem 2. Diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr**

5. Roedd y Prif Weithredwr yn meddwl ei bod wedi bod yn flwyddyn eithaf anghyffredin, yn flwyddyn o uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ar draws cymaint o wahanol feysydd.

6. Mewn cyfweliad diweddar gyda'r BBC dywedodd y Prif Weithredwr fod y BBC eisiau siarad am rai o'r heriau yr oedd yr amgueddfa wedi eu hwynebu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rhannodd y Prif Weithredwr gyda nhw ei bod yn rhwystredig iawn pan oedd cymaint o fodfeddi colofn yn ddigidol ac mewn print yn canolbwyntio ar rai o heriau'r flwyddyn ddiwethaf a bod hyn yn cysgodi llawer o'r hyn a gyflawnwyd.

7. Gan fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd ar draws safleoedd yr amgueddfa, darparodd y Prif Weithredwr rai o'r uchafbwyntiau canlynol.

   - Y diwrnod agored yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol
   - Amgueddfa'r Lleng Rufeinig - gyrru dehongliad y person cyntaf ac arwain at gynnydd sylweddol mewn rhoddion.
   - Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd – Cwblhau'r ramp hygyrchedd ar flaen yr adeilad, ac Arddangosfa'r BBC.
   - Big Pit – prentisiaid newydd yn ymgysylltu â gwaith yr Amgueddfa.
   - Amgueddfa Wlân – ffocws masnachol o'r newydd.
   - Sain Ffagan – Digwyddiadau a gefnogir yn dda drwy gydol y flwyddyn

- Llanberis – datblygiad y project cyffrous hwn.
- Gwobrau – Big Pit a Sain Ffagan wedi'u henwi fel yr atyniadau gorau yn y DU mewn 2 gategori gwahanol o wobrau.
- Enillodd yr Amgueddfa Wlân wobr wlân arbennig hefyd.
- Presenoldeb yr Amgueddfa mewn digwyddiadau mawr gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod.

8. Wrth edrych ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, nododd y Prif Weithredwr fod yr Amgueddfa wedi cyflawni cynnydd sylweddol eleni mewn dysgu ac mewn gwirfoddoli ac yn nifer yr eitemau yr oedd yr Amgueddfa yn eu rhannu o'i chasgliad yn ddigidol.

9. Fe wnaeth buddsoddiadau mewn technoleg fel y system irecruit helpu'r Amgueddfa i gyflawni yn erbyn amcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy ddileu rhagfarn anymwybodol wrth recriwtio. Yn ogystal, roedd gweithredu system Rheoli Adnoddau Canolog yn helpu'r Amgueddfa i ddeall ei hymwelwyr.

10. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei bod wedi bod yn flwyddyn fwy heriol yn gyffredinol o ran llogi masnachol a chorfforaethol ers COVID, ac roedd streic yr awduron wedi golygu na fu trwybwn o gomisiynau newydd. Fodd bynnag, roedd cynnydd gyda'r gweithrediadau bwyd a diod.

11. Roedd yn flwyddyn gadarnhaol o ran rhoddion a chodi arian gan gynnwys etifeddiaeth a digwyddiadau noddwyr ac ymrwymiad pellach i loteri cod post y bobl o ganlyniad i'r berthynas a adeiladwyd gan dîm yr Amgueddfa.

12. Wrth edrych ymlaen at 2024, roedd llawer o bethau cadarnhaol fel yr Amgueddfa yn mynychu trafodaeth banel fel rhan o wythnos Cymru yn Llundain ar gelfyddyd actifiaeth ac agor y Vulcan yn Sain Ffagan ym mis Mai.

13. Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am ei myfyrdodau ar ei 3 mis cyntaf yn y swydd.

**PENDERFYNWYD: Nodi diweddariad y Prif Weithredwr.**

**Eitem 3. Adroddiad Cyllid Diwedd Mis Hydref**
Noddwr a chyflwynydd: Peter Holt, Prif Swyddog Ariannol Dros Dro

14. Rhoddodd y Prif Swyddog Ariannol Dros Dro ddiweddariad cyllid mis Hydref i'r Ymddiriedolwyr.

15. Ddiwedd mis Hydref, yn gyffredinol roedd yr amgueddfa yn perfformio yn unol â'r ffigurau a ail-ragfynegwyd, fodd bynnag, roedd yn hanfodol bod rheolaeth ariannol dynn yn cael ei chynnal dros gostau gan y byddai'r codiad cyflog sydd ar ddod yn cael effaith sylweddol ar y llinell waelod.

16. Dywedodd y Prif Swyddog Ariannol Dros Dro fod yr amgueddfa wedi cynllunio ar gyfer diffyg diwedd blwyddyn o £518k.

17. Gofynnwyd i bob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (LlC) wneud taliad costau byw sefydlog o £1500 i staff, a oedd yn gyfanswm o £1.3m, ond llwyddodd cyfarwyddwyr i wneud addasiadau i ariannu hyn heb gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar yr oedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai pob un o'r cyrff a noddir yn talu dyfarniad cyflog o 5%, pan oedd yr amgueddfa ond wedi cyllidebu am 2%. Creodd hyn bwysau ychwanegol o tua £700k, a fyddai'n cael ei ariannu'n rhannol gan gynilion ac yn rhannol gan gronfeydd wrth gefn.

18. Yn ddiweddar, roedd Enterprises Ltd wedi ail-ragfynegi ei elw net i lawr i £362k.

19. Roedd hyn yn golygu bod sefyllfa diwedd blwyddyn yr Amgueddfa wedi cynyddu i tua £1.7m.

20. O ran rhaglenni cyfalaf, roedd y gwariant hyd yma yn is na'r disgwyl.

21. Roedd Incwm Refeniw Cymorth Grant o £16.8m wedi'i dynnu i lawr hyd at ddiwedd mis Hydref, gyda'r cyllid ar gyfer £1,500 o daliadau cyflog costau byw yn cael ei dynnu i lawr ym mis Medi. Derbyniwyd cyfraniadau gan Ddinas a Chyngor Abertawe o £333k tuag at gostau rhedeg Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (NWMS) a derbyniwyd £176k ar gyfer grant Casgliad y Bobl.

22. Roedd incwm hunan-gynhyrchu adrannol am y flwyddyn hyd yma wedi rhagori ar y gyllideb o £353k ac roedd pob adran wedi rhagori ar ei tharged disgwyliedig.

23. Roedd elw net yr is-gwmni masnachu wedi rhagori ar y targed o £27k a ailragfynegwyd am y flwyddyn hyd yn hyn.

24. Roedd pob rhan o'r busnes wedi rhagori ar y targedau a ailragfynegwyd ac eithrio manwerthu a'r maes parcio a oedd yn £6k a £14k yn is na'r elw net a ailragfynegwyd yn y drefn honno.

25. Roedd costau staff gwirioneddol am y flwyddyn hyd yma yn £15.1m, yn uwch na'r gyllideb o £354k.

26. Y costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn hyd yma oedd £4.7m, £14k yn uwch na'r gyllideb. Darparwyd dadansoddiad yn ôl isadran yn yr adroddiad.

27. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Eitem 4. Paratoadau Cyllideb 2024/25 – Diweddariad ar lafar**
Diweddariad gan Ian Williams Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant, Llywodraeth Cymru a Peter Holt Prif Swyddog Ariannol Dros Dro.

28. Roedd IW wedi ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd y Prif Swyddog Ariannol Dros Dro fod gwaith ar gyllidebau 2024/2025 yn cael ei gynllunio ar y broses bresennol a chadarnhaodd y byddai cryn dipyn o waith yn digwydd unwaith y darparwyd y darlun cyllideb gan Lywodraeth Cymru o fewn yr wythnos nesaf.

29. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ystyried y diweddariad.

**PENDERFYNWYD: nodi'r diweddariad llafar.**

**Eitem 5. Uchafbwyntiau Chwarterol Amgueddfa Cymru – Cyflwyniad Llafar**
Noddwr a chyflwynydd: Uwch Dîm Gweithredol

30. Cyflwynodd yr Uwch Dîm Gweithredol ei uchafbwyntiau chwarterol i'r Ymddiriedolwyr a oedd yn cwmpasu'r meysydd canlynol.

- Cynllun Gweithredol
- Adolygiad wedi'i deilwra
- Cyflwyno'r Brand
- Cyllid a Chyfrifon
- Nifer yr ymwelwyr
- Ymgysylltu â Chefnogwyr a Rhanddeiliaid
- Digwyddiadau Cyhoeddus
- Arddangosfeydd
- Dysgu ac Wythnos Addysg Oedolion
- Casgliadau ac Ymchwil

31. Byddai copi o'r cyflwyniad a'r uchafbwyntiau yn cael eu dosbarthu gyda'r cofnodion.

32. Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Dîm Gweithredol, ar ran y Bwrdd, am gyflwyniad cynhwysfawr, llawn gwybodaeth, a oedd yn amlygu'r holl waith cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter diwethaf.

33. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Nodi cyflwyniad yr Uchafbwyntiau Chwarterol.**

**Eitem 6. Strategaeth Datblygu Casgliadau**
Noddwr a chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, Sioned Hughes, Pennaeth Hanes Cyhoeddus ac Archaeoleg

34. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil y papur a'i drosglwyddo i Bennaeth Hanes Cyhoeddus ac Archaeoleg a roddodd gyflwyniad llawn a chynhwysfawr i'r ymddiriedolwyr.

35. Roedd yn hen bryd cynnal adolygiad o Strategaeth Datblygu Casgliadau Amgueddfa Cymru a'i diwygio. Roedd y Polisi presennol wedi bod ar waith ers 2016 ac nid oedd bellach yn adlewyrchu nodau a dyheadau'r sefydliad.

36. Roedd dau brif sbardun i'r adolygiad presennol - sef yr angen i alinio â Strategaeth yr Amgueddfa 2030 a'r gofyniad i ddiweddaru'r polisi o fewn cyd-destun cais yr Amgueddfeydd ar gyfer adnewyddu Achrediad Amgueddfa yn 2024. Roedd yr adroddiad Adolygiad wedi'i deilwra hefyd yn argymell adolygiad cynhwysfawr o'r holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chasgliadau.

37. Ym mis Mai 2023, yn dilyn cymeradwyo'r strategaeth ddrafft gan yr Uwch Dîm Gweithredol, dosbarthwyd y ddogfen i ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru. Cafwyd sylwadau manwl oddi wrth y sefydliadau a ganlyn:

- Prifysgol Caerdydd
- Cyngor Gwynedd
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent
- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
- Panel Archifau Archaeolegol yng Nghymru
- Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol
- Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru.

38. Roedd yr ymatebion ar y cyfan yn gefnogol ac roedd sylwadau penodol wedi'u hystyried a'u hymgorffori yn y ddogfen lle'r oeddent yn cael eu hystyried yn briodol ac yn ymarferol.

39. Cynhaliwyd gweithdy hefyd gyda Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru ddydd Gwener, 3 Tachwedd. Daeth nifer dda o bobl i'r gweithdy, ac roedd cynrychiolaeth ddaearyddol yn gryf yn ogystal â'r amrywiaeth o amgueddfeydd a gynrychiolwyd. Roedd y drafodaeth yn adeiladol iawn, a daeth meysydd o ddiddordeb cyffredin i'r amlwg ynghylch Hanes Llafar, ailgartrefu gwrthrychau, datblygu terminoleg safonol a chasglu ymateb yn gyflym. Y thema trwy gydol y gweithdy oedd sut y gallwn weithio'n well gyda'n gilydd a chyfuno gwybodaeth.

40. Yn dilyn y drafodaeth heddiw, byddai gwelliannau perthnasol yn cael eu hymgorffori yn y ddogfen i'w ddosbarthu o'r newydd ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid. Yna byddai'r amgueddfa yn symud ymlaen gyda datblygu'r Cynlluniau Gweithredu Casgliad creiddiol a fyddai'n adlewyrchu meysydd gwaith penodol ar draws gwahanol adrannau'r amgueddfa. Byddai'r rhain yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod cystadleuaeth a gwrthdaro yn cael eu hosgoi wrth gasglu.

41. Gwnaeth ymddiriedolwyr sylwadau ynghylch yr ymagwedd ragweithiol tuag at ddemocratiaeth ddiwylliannol, a'i halinio â'r strategaeth, ac roedd hyn i'w weld yn gadarnhaol.

42. Gofynnodd yr Ymddiriedolwr FS am ymagwedd yr Amgueddfeydd at uchafbwyntiau a ddenodd ymwelwyr, a oedd hefyd yn destun balchder a bod hyn yn uchelgais pwysig i'r amgueddfa.

43. Dywedodd Pennaeth Hanes Cyhoeddus ac Archaeoleg y byddai'n bosib edrych ar gryfhau'r neges sy'n gysylltiedig â gwneud mwy o'r casgliadau. Roedd yr Amgueddfa eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill trwy ymchwil Gweithredu Cymunedol, trwy waith cyfranogol i ymhelaethu'r neges yn fawr.

44. Trafododd ymddiriedolwyr bwysigrwydd digidol fel rhan sylweddol o'r dull gweithredu a chofnodi Gwaith Celf, a phwysigrwydd cynnal gallu technolegol.

45. O fewn cyd-destun yr hinsawdd ariannol bresennol, cynhaliwyd trafodaeth ynghylch gwerthu eitemau o'r casgliad a rhoddodd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil y pwyntiau canlynol o God Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfa.

- Ni ddylid gwaredu eitemau gyda'r prif nod o gynhyrchu arian er budd ariannol.
- Ni ddylid gwaredu eitemau i dalu'r diffyg cyllidebol.

46. Nododd y Cyfarwyddwr ymhellach, er mwyn cynhyrchu arian o unrhyw arwyddocâd, y byddai hyn yn debygol o olygu gwerthu eitem o Gasgliad Davies. Roedd hwn yn gasgliad sylfaenol i Amgueddfa Cymru a byddai gwerthu unrhyw waith yn tanseilio ethos yr amgueddfa ac yn achosi colli hyder o du'r cyllidwyr a'n cynulleidfaoedd.

47. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr hefyd fod yr Amgueddfa yn cymryd ymagwedd strategol gyda rhaglen o ailgartrefu eitemau o'r casgliad er budd y cyhoedd.

48. Gofynnodd y Prif Weithredwr am welliant i'r ddogfen i gynnwys y pwyntiau a wnaed ynghylch Eitemau o bwysigrwydd sylweddol a'r ffordd yr oedd yr Amgueddfa yn edrych ar y rhain gan y byddai hyn yn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

49. Cytunodd y Cadeirydd a gofynnodd i Ymddiriedolwyr gymeradwyo'r ddogfen yn amodol ar ddiwygio a chynnwys eitemau o arwyddocâd cenedlaethol.

50. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur y cyflwyniad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Yn amodol ar ddiwygio a chynnwys eitemau o arwyddocâd cenedlaethol, cymeradwyo'r Strategaeth Datblygu Casgliadau.**

**Eitem 7. Eitemau i'w dad-dderbyn - Samplau Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn Morol**
Noddwr a chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.

51. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr i ddad-dderbyn samplau anifeiliaid di-asgwrn-cefn morol.

52. Anfonwyd cyfres o samplau o anifeiliaid di-asgwrn-cefn morol at ymchwilwyr o dan bedwar rhif benthyciad, i'w hadnabod ar gyfer yr Amgueddfa neu ar

gyfer eu hymchwil bersonol, cyn eu cofrestru. Nid oedd gan yr un o'r sbesimenau dan sylw rifau cofrestru unigol.

- I.1987.010 8 lot/13 sbesimen o Genetyllis castanea (Annelida: Polychaeta)
- I.1992.012 2 lot/2 sbesimen o Podarkeopsis capensis (Annelida: Polychaeta)
- I.1994.014 2 lot/2 sbesimen o widdon a pycnogonid anhysbys (Arthropoda)
- I.2010.003 61 lot o Tanaidacea a Cumacea anhysbys (Arthropoda)

53. Rhyddhawyd y samplau ar fenthyciadau rhwng 1987 a 2010, ac am wahanol resymau ni chawsant eu dychwelyd.

54. Lle bo'n bosibl cysylltwyd â'r benthycwyr gwreiddiol, neu gysylltiadau eraill a allai fod â gwybodaeth am leoliad y deunydd a fenthycwyd, ond nid oedd hyn wedi arwain at leoli'r sbesimenau coll a'u dychwelyd. Felly, ystyriwyd bod y sbesimenau yn y benthyciadau hyn ar goll.

55. Casglwyd yr holl sbesimenau a amlinellwyd yn yr adroddiad fel rhan o raglenni casglu ymchwil ffurfiol yr Amgueddfa, rhai gyda chyllid grant allanol (e.e. y Seychelles, Môr Iwerddon).

56. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo dad-dderbyn y Samplau Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn Morol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.**

**Eitem 8. Adroddiad hanner blynyddol i'r Bwrdd – Yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.**
Noddwr a chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus

57. Rhoddwyd diweddariad i'r Ymddiriedolwyr ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, 2022-25 a gwaith Amgueddfa Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

**Mae'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad yn amlygu;**

58. **Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd** – Roedd y Tasglu, a sefydlwyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac a ariannwyd gan Sefydliad Paul Hamlyn, yn parhau i oruchwylio'r cynllun. Byddai'r ffocws ar gyfer Chwarter 4 ar ddatblygu ffyrdd gwell o gyfathrebu'r gwaith.

59. **Democratiaeth Ddiwylliannol** – Buddsoddodd yr Amgueddfa yng Nghynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, rhwydwaith o bobl ifanc rhwng 18-24 oed o gefndiroedd amrywiol, sy'n cyd-gynhyrchu digwyddiadau,

arddangosfeydd a pholisïau. Ar hyn o bryd roedd y Cynhyrchwyr yn gweithio ar gasgliad ac arddangosfa LHDTC+.

60. **Gwasanaethau Hygyrch –** Yn dilyn archwiliad o bob amgueddfa drwy Fynediad Uniongyrchol roedd yr argymhellion a wnaed wedi eu hymgorffori yn y cynlluniau seilwaith ym mhob amgueddfa. Roedd yr Amgueddfa wrthi'n ymuno â Hynt, y cynllun mynediad cenedlaethol a oedd yn gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru.

61. **Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant Staff** - Roedd polisïau a phrosesau recriwtio Adnoddau Dynol wedi'u diwygio. Roedd y data monitro cydraddoldeb wedi'i ddiweddaru i lywio'r pecynnau cymorth recriwtio, polisïau a phrosesau. Roedd polisïau Urddas yn y Gwaith a Microymosodiadau hefyd wedi'u diwygio ac ar hyn o bryd maent gyda'r undebau llafur i'w hystyried. Roedd Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru yn datblygu amcanion newydd ar gyfer 2024-2028, a fyddai'n cynnwys un ar amrywiaeth y gweithlu. Sefydlwyd Rhwydwaith Amrywiaeth AD gyda chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru i gyfnewid arfer da a nodi meysydd cydweithio.

62. Trefnwyd cyfarfod cynnydd ar y cyd gydag aelodau Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y gwanwyn. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd a'r Cyngor adolygu adroddiad cynnydd CAG (Coch/Ambr/Gwyrdd) ac ystyried y meysydd sydd angen sylw pellach gydag aelodau'r Tasglu. Hyd yma roedd wyth cam gweithredu wedi'u cwblhau, gyda 25 o gamau gweithredu yn parhau i'w cwblhau erbyn 2025.

**Uchafbwyntiau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol**

63. Roedd Amgueddfa Cymru wedi derbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gyflawni yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Roedd yr arian yn cynnwys cyflwyno Safbwyntiau / Perspectives, menter ar y cyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru yn canolbwyntio ar Ddathlu Amrywiaeth Ddiwylliannol a'r nodau Naratif Hanesyddol. Mae'r fenter yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â rhwydwaith o weithwyr proffesiynol creadigol, lleoliadau a chymunedau celfyddydol. Roedd y gwaith yn cynnwys dathlu amrywiaeth ddiwylliannol gyda digwyddiadau cymunedol fel:

- Diwali Mela gyda Chanolfan Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd Cymru India (4 Tachwedd) yn Sain Ffagan;
- Llwyfan Newydd: Cyfraniadau o'r Caribî (6 Hydref) fel llwyfan ar gyfer talent addawol
- Diwrnod Treftadaeth Somaliaid Cymreig gyda hynafiaid Somali, Pafiliwn Ieuenctid Grangetown a Kayd - Celfyddyd a Diwylliant y Somaliaid (26 Tachwedd) yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (NMC).

64. Roedd tua 10,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol mwyafrifol byd-eang eleni hyd yma.

65. Parhaodd y gwaith i ddatblygu naratif hanesyddol cytbwys, dilys a dad-drefedigaethol gydag ymarferwyr creadigol a ymwelodd â phob un o amgueddfeydd Amgueddfa Cymru i adolygu ac ymchwilio casgliadau gyda churaduron a rheolwyr project arddangos. Er enghraifft, ymwelodd Jasime Violet ag Amgueddfa Lechi Cymru gan archwilio'r cysylltiadau rhwng y diwydiant llechi a'r fasnach gaethweision; a Nasia Sarwar yn canolbwyntio ar y gwrthrychau a gysylltir â gwladychu India yn Sain Ffagan. Mae gweithwyr proffesiynol creadigol wedi gwneud gwaith ymchwil gan gynnwys yn yr Archifau Diwylliannol Du. Mae cynlluniau i ffurfio gweithdai grwpiau cymunedol a chynnal sgyrsiau gydag ymchwilwyr allanol.

66. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Eitem 9. Adroddiad Diweddariad Chwarterol ar Ddatblygu Cynaliadwy**
Noddwr a chyflwynydd: Janice Lane, Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr

67. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr y wybodaeth ddiweddaraf i Ymddiriedolwyr am y cynnydd a wnaed ar draws y meysydd canlynol:

**Datgarboneiddio a chynhyrchu adnewyddadwy**

68. Roedd cynnydd da yn cael ei wneud mewn perthynas â'r grant datgarboneiddio o £750,000 a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dyfarnwyd Cam 1 Cantîn Big Pit a dechreuwyd ar y gwaith a byddai'n cael ei gwblhau cyn y Nadolig.
- Dyfarnwyd costau a rhaglen Cam 2 Cantîn Big Pit, a byddai'r gwaith yn dechrau ym mis Ionawr 2024 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024 a fyddai'n cynnwys pwmp gwres ffynhonnell aer (ASHP) i rai adeiladau.
- Rhaglen Project Dre-fach (sied wehyddu) i ddechrau 24 Ionawr hyd at ddiwedd Ebrill 2024.
- Mesuryddion - y cwmpasu'n cael ei gwblhau a byddai'n cael ei weithredu'r flwyddyn ariannol hon
- Roedd yr Amgueddfa yn aros am gynnig ffioedd gan Hoare Lea i ymchwilio i bob safle ar gyfer addasrwydd cynaeafu dŵr glaw.

69. Roedd y cynllun rheoli carbon yn parhau a byddai'n cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2024.

70. Ynni: Byddai projectau dichonoldeb ffotofoltaidd (PV) yn cael eu cwblhau yn ystod mis Rhagfyr.

71. Adrodd Sero Net: Roedd tîm adrodd Sero Net Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddent yn cyflwyno canfyddiadau ôl-troed carbon cyffredinol y sector cyhoeddus 2022/23 ar y 12 Rhagfyr, ond cafodd y cyfarfod hwn ei ganslo. Byddai dyddiad newydd yn cael ei bennu yn y flwyddyn newydd.

**Adfer Tir a Natur - canolbwyntio ar Archwiliadau Bioamrywiaeth AC, 2023/24.**

72. Amlygodd yr adroddiad fod gwaith adran y Gwyddorau Naturiol yn ystod 2023/24 wedi canolbwyntio ar bedwar maes o waith asesu bioamrywiaeth ar safleoedd yr Amgueddfa. Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Drefach, Amgueddfa Wlân Cymru.

**Ymgysylltu â staff a gwirfoddolwyr –**

73. Roedd hyfforddiant llythrennedd carbon wedi digwydd yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, ac ar hyn o bryd roedd dros 420 aelod o staff wedi cael hyfforddiant.

Ffyrdd o weithio

74. Amlinellodd yr adroddiad fod ymdrechion sylweddol yn parhau i ganolbwyntio ar adolygu polisïau ac arferion yn y meysydd canlynol;

- Cronfa Cynllun Pensiwn
- Teithio busnes cynaliadwy
- Caffael a'r Economi Gylchol
- Adolygiad a rhaglen Rheoli Gwastraff
- Cydweithio ac Ymchwil
- Datgarboneiddio digidol
- Recriwtio

75. Hefyd, amlinellodd yr adroddiad ffocws gweithgarwch yn Chwarteri 3-4 2023/2024.

76. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Eitem 10. Adroddiad Blynyddol Gweithredwyr Perchnogion Big Pit**
Noddwr a chyflwynydd: Janice Lane, Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr

77. Fel Perchnogion a Gweithredwyr Big Pit cyflwynwyd Adroddiad y Perchnogion a'r Gweithredwyr i'r Ymddiriedolwyr. Atodwyd yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch llawn yn Atodiad A i'r adroddiad.

78. Dosbarthwyd Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru fel pwll gweithiol ac felly mae'n destun Rheoliadau Mwyngloddio. O dan y rheoliadau hyn, cydnabuwyd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru fel perchnogion a gweithredwyr y pwll. Roedd y rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arolygwyr Mwyngloddio gynnal ymyriadau rheolaidd (arolygiadau). Rhan o'r arfer da a nodwyd gan yr ymyriadau hyn oedd bod cyfathrebu rheolaidd a thryloyw rhwng rheolwyr Big Pit a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fel perchnogion a gweithredwyr y lofa.

79. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd i Berchnogion a Gweithredwyr y Pwll fod gweithrediad y pwll yn cael ei wneud i'r safonau Iechyd a Diogelwch disgwyliedig fel yr amlinellir yn Adroddiad Iechyd a Diogelwch Big Pit.

80. Paratowyd yr adroddiad blynyddol a atodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad gan Reolwr y Pwll ac roedd yn grynodeb o'r camau a wnaed dros y flwyddyn, gwaith arfaethedig ar gyfer y dyfodol a chadarnhad bod Big Pit yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Mwyngloddio.

81. Yn gryno, nid oedd unrhyw faterion mawr i'w hadrodd, ac roedd Big Pit yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau Mwyngloddio.

82. Gwnaeth yr Ymddiriedolwr HJ sylw ar bwysigrwydd cyfarfod Ymddiriedolwyr newydd gyda Rheolwr a staff cymwys y Pwll.

83. Nododd y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr bod gofyn i bob Ymddiriedolwr gael sesiwn hyfforddi perchnogion a gweithredwyr ar y safle bob blwyddyn. Byddai'r Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol yn nodi dyddiad addas cyn diwedd mis Mawrth 2024 i sicrhau bod ymddiriedolwyr newydd a benodir yn derbyn yr hyfforddiant gofynnol pan fyddant yn ymuno.

84. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD:**

**(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(2) Byddai sesiwn Hyfforddi Perchnogion a Gweithredwyr yn cael ei threfnu ar y safle
yn ystod mis Mawrth 2024.**

**Eitem 10.1 Adroddiad Blynyddol Perchnogion a Gweithredwyr Big Pit - Datganiad Rôl Llywodraethu**
Noddwr a chyflwynydd: Janice Lane, Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr

85. Dywedodd y Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr mai pwrpas Datganiad Rôl Llywodraethu Perchnogion a Gweithredwyr Big Pit wedi'i ddiweddaru oedd egluro rôl y perchennog o'i gymharu â rôl y Gweithredwyr i adlewyrchu'r sefyllfa yn well o fewn Amgueddfa Cymru.

86. Yn y sefyllfa wedi'i diweddaru, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr oedd y Perchnogion o hyd, tra nodwyd yr Uwch Dîm Gweithredol fel y Gweithredwr.

87. Nododd y datganiad wedi'i ddiweddaru fod cyfrifoldebau wedi'u gwahanu rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Uwch Dîm Gweithredol.

88. O dan ofyniad Rheoliadau Pyllau Glo 2014, ystyrir mai Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru yw perchnogion y pwll glo sydd wedi'i leoli yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

89. Yr Uwch Dîm Gweithredol yw Gweithredwyr y Pwll. O dan Reoliadau Pyllau Glo 2014, rhaid i weithredwr pob pwll sicrhau bod Penodiadau Statudol ar waith. Roedd yn ofynnol i Big Pit gael Person Cymwys penodedig, a ystyrir yn Rheolwr y Pwll, â chymwysterau addas i reoli'r pwll. Penodwyd Cynrychiolydd Perchnogion a Gweithredwyr ar lefel Safle a Chynrychiolydd Perchnogion a Gweithredwyr ar lefel Bwrdd i sicrhau bod yr holl ddyletswyddau cyffredinol yn cael eu cyflawni, fel y nodir yn Rheoliad 7 o Reoliadau Pyllau Glo 2014, dyletswyddau cyffredinol gweithredwr y pwll.

90. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol perchnogion a gweithredwyr Big Pit gan y Cynrychiolydd Perchnogion a Gweithredwyr ar lefel Bwrdd i'r Perchnogion mewn Cyfarfod Bwrdd Ymddiriedolwyr. Roedd yr adroddiad blynyddol yn ymdrin ag agweddau ar iechyd a diogelwch yn ogystal â diweddariad cyffredinol ar waith Big Pit i fodloni dyletswyddau'r gweithredwr pwll glo.

91. Roedd dyletswyddau gweithredwr y pwll yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sicrhau strwythur rheoli a staffio effeithiol, roedd Cynllun Cynnal a Chadw ar gyfer y Pwll ar waith ac roedd rheolau gweithredu mewn grym. Manylwyd ar y rhain yn 'Y Ddogfen Iechyd a Diogelwch ar gyfer Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru' a adolygwyd yn flynyddol.

92. Defnyddiodd Arolygwyr Pyllau Glo'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch drefn arolygu ymyrraeth i oruchwylio'r systemau rheoli risg a ddefnyddir gan ddeiliaid dyletswydd o dan Reoliadau Pyllau Glo 2014.

93. O ganlyniad i strwythur newydd yr Uwch Dîm Gweithredol, o 1 Ionawr 2024 cynrychiolydd y Gweithredwr Perchennog fyddai'r Cyfarwyddwr Dysgu, Profiad ac Ymgysylltu. Nodwyd a chymeradwywyd y newid hwn gan y Bwrdd.

94. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Datganiad Rôl Llywodraethu Perchnogion a Gweithredwyr Big Pit wedi'i ddiweddaru.**

**Eitem 11. Adroddiad chwarterol i'r Bwrdd ar ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru.**
Noddwr a chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol

95. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ddiweddariad i Ymddiriedolwyr ar Broject Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru.

96. Ar hyn o bryd roedd y Project yn mynd rhagddo trwy RIBA 2 ac roedd yr Amgueddfa yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Dylunio Project i ddatblygu'r gofynion, yr uwchgynllun yn ogystal â risg, costau a'r rhaglen.

97. Byddai'r newidiadau strategol arfaethedig yn cael eu datblygu i wella profiad ymwelwyr, dehongliad, mynediad a gwaith cadwraeth i adeiladwaith yr adeilad a'r gofod presennol.

98. Datblygwyd y cwmpas a'r cynlluniau ar gyfer yr Uwchgynllun gan benseiri ROA yn dilyn trafodaethau hir gyda'r Uwch Dîm Gweithredol, staff adrannol a staff y safle ac maent yn sail i'r costau a gyflwynwyd yn Adroddiad Cam 1 RIBA ac fe'i llofnodwyd ar 14/09/23 gan Fwrdd y Project.

99. Roedd dyluniadau Cam 2 RIBA ar gyfer y project yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd ac roedd cyfres o weithdai gyda staff ac uwch aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael eu rhaglennu ar hyn o bryd a fyddai'n llywio datblygiad y dylunio.

**Costau'r Project**

- Roedd yr amcangyfrif gwreiddiol o gostau'r project yn £12,383,000 miliwn.
- Amserlen: LUF i'w wario erbyn mis Mawrth 2025, ac mae cyllid cyfatebol LUF i'w wario erbyn mis Mawrth 2026.
- Roedd ychydig dros 50% o'r cyllid ar gyfer y cam hwn (£6.2m) wedi'i sicrhau drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

100. Roedd Faithful and Gould wedi cyhoeddi Adroddiad Cam 1 i'r Amgueddfa ar y 08/09/23 gyda chostau wedi'u diweddaru a oedd yn gyfanswm o £15,700,664. Roedd y rhain yn cael eu cymodi ar hyn o bryd. Er bod disgwyl costau uwch gan fod yr Uwchgynllun yn cynnwys cwmpas ehangach o'i gymharu â'r cwmpas yn ystod yr astudiaeth dichonoldeb cychwynnol. Roedd y tîm wedi gofyn am fwy o naratif i'r costau i gefnogi'r gwaith cymodi hwn. Roedd costau Cyfnod 1 hefyd yn cynnwys chwyddiant.

101. Roedd Cyllideb y Project wedi'i pharatoi a'i chodio, gyda chefnogaeth swyddogion Cyllid o'r Tîm Cyllid. Byddai hyn yn sicrhau y gellid nodi ac adrodd gwariant yn glir.

102. Roedd cyfanswm ychwanegol yr elfennau refeniw yn £1.8 miliwn. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â phobl wrth wraidd yr arddangosfeydd, y dehongliad a'r rhaglen, ac yn dilyn egwyddorion yr Amgueddfeydd fel yr amlinellir yn Strategaeth 2030 a'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad. Cafodd y costau refeniw hyn eu cynnwys yn y cais a oedd yn cael ei baratoi ar gyfer Cam Datblygu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Gofynnodd Faithful & Gould am lif arian project manwl a oedd yn adlewyrchu'r rhaglen.

103. Er mwyn sicrhau cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y project, roedd Achos Busnes a oedd yn dilyn methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys y DU wedi'i baratoi. Cyflwynwyd Achos Amlinellol Strategol (SOC) i Lywodraeth Cymru ar 7 Mehefin 2023 gyda chais am gyllid o £2.1m, dros ddwy flynedd. Roedd yr Amgueddfa wedi derbyn adborth ar yr Achos Amlinellol Strategol hwn gan gydweithwyr Llywodraeth Cymru ac wedi ymateb i'r sylwadau hyn ac wedi ailgyhoeddi Achos Amlinellol Strategol diwygiedig ar 05/09/23. Roedd

cefnogaeth ar gyfer datblygu'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gaffael ar hyn o bryd.

104. Cynhaliwyd adolygiad y Porth ar 2-4 Hydref 2023 gyda rhanddeiliaid yn cael eu cyfweld ar 2-3 Hydref. Roedd yr Adolygiad wedi dod i'r casgliad bod y project yn cael ei ystyried yn deilwng o statws Coch/Ambr. Gwnaed cyfanswm o chwe argymhelliad ac roedd y tîm wrthi'n cwblhau'r cynllun gweithredu gofynnol i fynd i'r afael â'r rhain. Yna byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried a byddai adolygiad pellach yn cael ei drefnu yn gynnar yn y flwyddyn newydd i ystyried y cynnydd a wnaed.

105. Datblygwyd rhaglen broject gyda Faithful & Gould i ddangos y cerrig milltir a'r amserlen gyffredinol ar gyfer cyflawni camau project arwahanol. Roedd y rhaglen bresennol yn dangos y byddai'n cael ei chwblhau ym mis Medi 2026 ac felly byddai'r tîm yn gweithio dros y misoedd nesaf i leihau'r cyfnod hwn. Roedd Dogfen Cerrig Milltir Project hefyd wedi'i datblygu, a oedd yn dilyn y rhaglen dyddiedig Awst 23.

106. Roedd Adroddiad Codi Arian wedi cael ei gynnal gan Y Ganolfan Ariannu a fyddai'n cefnogi tîm Datblygu Amgueddfa Cymru.

107. Roedd Datganiad o Ddiddordeb i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus ac felly cyflwynwyd cais am gyllid datblygu ar 16/11/23. Roedd disgwyl penderfyniad ym mis Ionawr 2024. Ymwelodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ag Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis ddydd Llun 12/09/23. Roedd nifer o friffiau a disgrifiadau Swyddi yn cael eu paratoi fel dogfennau ategol i'r cais hwn.

108. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Eitem 12. Y newyddion diweddaraf am yr Oriel Gelf Gyfoes**
Noddwr a chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

109. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil ddiweddariad i'r bwrdd ar Oriel Genedlaethol Celf Gyfoes i Gymru (OGCGG).

110. Yn ddiweddar, roedd partneriaid cyflawni, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wedi diweddaru a chytuno ar yr Achos Busnes Gweithredol (OBC). Roedd y cytundeb yn cynnwys y trefniadau a'r amodau ar gyfer cydreoli a chyflawni menter OGCGG hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025

111. Cynhaliwyd adolygiad sicrwydd o'r project ar 6 Rhagfyr 2023, a oedd yn dilyn gradd ambr/coch o adolygiad y Porth a gynhaliwyd yn gynharach yn yr Hydref. Rhaid sicrhau sgôr ambr o leiaf o'r Adolygiad Sicrwydd er mwyn i'r fenter fynd yn ei blaen. Nododd y Cyfarwyddwr ei bod wedi derbyn cadarnhad yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru bod statws Gwyrdd/Ambr bellach

wedi'i gyflawni. Gallai'r tîm nawr symud ymlaen gyda'r Achos Busnes Llawn (FBC), a oedd yn cael ei ddatblygu ar yr un pryd, ac a fyddai'n cael ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn diwedd mis Ionawr 2024.

112. Byddai'r Achos Busnes Llawn yn cynnwys cynlluniau amlinellol ar gyfer rheoli menter OGCGG y tu hwnt i fis Mawrth 2025; rhaid i hyn gynnwys modelu ariannol sylfaenol. Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw awydd gan y partneriaid arweiniol LlGC a CCC i fynd ag OGCGG yn fewnol y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Roedd opsiynau amgen yn cynnwys y potensial i sefydlu endid ar wahân, i sefydlu un neu gonsortiwm o'r orielau partner fel arweinydd, neu i'r Amgueddfa ymgorffori rheolaeth OGCGG yn ei chynllunio strategol.

113. Roedd Cylch Gorchwyl ar gyfer y pedwar is-grŵp, a fyddai'n adrodd i'r Bwrdd, wedi'i ddrafftio a'i gymeradwyo. Roedd Is-grŵp Orielau ac Is-grŵp Cyfathrebu ar y gweill.

114. Roedd y naw oriel bartner i gyd wedi derbyn cynigion ariannu, gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ar gyfer lefelau amrywiol o fuddsoddiad cyfalaf mewn elfennau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer y lleoliadau. Parhaodd Cyfarwyddwr y Project i weithio gyda'r orielau tuag at friffiau dylunio a nodau caffael. Roedd risg sylweddol na fyddai'r orielau i gyd yn gallu ymgymryd â gwariant llawn o ddyraniadau cyfalaf cyn diwedd y flwyddyn. Ni fyddai unrhyw ddyfarniad heb ei wario yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn nesaf a byddai'n cael ei golli.

115. Er bod gan bartneriaid oriel amserlenni arddangos sefydlog am yr ychydig flynyddoedd nesaf, roedd nifer ohonynt yn gweithio i gynnwys gweithgaredd OGCGG i raglenni cyfredol a pharhaus.

116. Roedd galwad agored yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd a fyddai'n mynd allan o'r 9 oriel bartner, AC a LlGC, gan wahodd artistiaid i gyflwyno cynigion ar gyfer 11 comisiwn. Byddai'r cyfleoedd comisiynu hyn yn amrywio yn ôl diddordebau lleol pob partner cyflenwi ond byddent yn cael eu fframio fel set gydlynus o gomisiynau i nodi lansiad meddal OGCGG yng Ngwanwyn 2024.

117. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Nodi'r Diweddariad ar Oriel Gelf Gyfoes.**

**Eitem 13 Adolygiad wedi'i deilwra**
Noddwr a chyflwynydd: Peter Holt, Prif Swyddog Ariannol Dros Dro

118. Darparodd y Swyddog Ariannol Dros Dro ddiweddariad i'r Ymddiriedolwyr ar y broses adolygu wedi'i theilwra.

119. Rhannodd y panel adolygu wedi'i deilwra annibynnol - dan gadeiryddiaeth David Allen - eu hadroddiad interim gydag Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022 cyn cyhoeddi'r adroddiad swyddogol ar 13 Gorffennaf 2023.

120. Roedd cyfanswm o 77 o argymhellion yn yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol i Amgueddfa Cymru:

- Llywodraethu.
- Cydraddoldeb.
- Amrywiaeth a chynhwysiant.
- Partneriaethau a chydberthynas.
- Cyfraniad i'r economi a'r gymdeithas a chyfleoedd ar gyfer buddsoddi, twf a gwasanaethau a rennir

121. Yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad, cafodd y 77 argymhelliad eu categoreiddio i ystyried a oeddent wedi'u cwblhau, yn parhau, wedi'u trefnu neu a oedd angen eu hystyried ymhellach.

122. Neilltuwyd yr argymhellion sy'n weddill i aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu i Lywodraeth Cymru i ystyried a goruchwylio eu gweithredu.

123. Fel rhan o'r broses hon, cyfarfu arweinwyr y Gyfarwyddiaeth â'u penaethiaid adrannol i aseinio arweinydd Project i gynhyrchu ffurflen Dogfen Cychwyn Project (PID) i fanylu ar y gofynion a'r amserlen sydd eu hangen i gyflawni'r argymhelliad/argymhellion a ddyrannwyd.

124. O'r 77 argymhelliad, nodwyd bod 20 wedi'u cwblhau, yn cael eu hystyried yn barhaus neu nad oedd angen gweithredu pellach gan eu harweinwyr penodedig.

125. O'r 57 argymhelliad sy'n weddill, rhoddwyd y dasg o lunio ffurflen Dogfen Cychwyn Project (PID) i'r arweinwyr project a neilltuwyd.

126. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn y ffurflenni PID, roedd disgwyl i'r mwyafrif helaeth o argymhellion gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2025. Byddai unrhyw newidiadau i ddyddiad cyflawni disgwyliedig yr argymhellion yn cael eu dal gan ddefnyddio adran 2 o'r ffurflen PID a byddent yn cael eu rhannu gyda'r grŵp Gorchwyl a Gorffen fel rhan o'r diweddariadau cynnydd misol.

127. Roedd argymhelliad 77 yn yr adroddiad yn cynnig sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o Ymddiriedolwyr, Uwch Weithredwyr a swyddogion Llywodraeth Cymru i oruchwylio ymateb a chynnydd yr Amgueddfa yn erbyn yr argymhellion.

128. Ers ei sefydlu, roedd y grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cyfarfod ddwywaith a chymeradwyo Cylch Gorchwyl y pwyllgor ac wedi adolygu a chymeradwyo'r holl PIDs a gwblhawyd a gynhyrchwyd gan arweinwyr y project. Byddai'r grŵp Gorchwyl a Gorffen yn parhau i gwrdd bob mis i ystyried PIDs yn y dyfodol ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion.

129. Amlygodd yr adroddiad y byddai angen cyllid ychwanegol i gyflawni'r argymhellion.

130. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Prif Swyddog Ariannol Dros Dro a'r Uwch Swyddog Gweinyddol am y gwaith cynhwysfawr yr oeddent wedi'i wneud wrth sefydlu'r broses lywodraethu.

131. Dywedodd y Prif Weithredwr y gofynnwyd iddi yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Diwylliant a oedd yr Amgueddfa yn derbyn telerau'r adroddiad adolygu wedi'i deilwra.

132. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr amgueddfa'n eu derbyn i'r eithaf; fodd bynnag, roedd yn bwysig pwysleisio yn y cyfarfod cyhoeddus hwn nad oedd yn derbyn y datganiad a'r disgrifiad a wnaed yn yr adroddiad bod safleoedd diwydiannol yr Amgueddfa angen gofal lliniarol. Roedd y datganiad hwn wedi achosi loes a phryder ymhlith tîm ehangach Amgueddfa Cymru. Roedd hi eisiau datgan ar goedd nad oedd hi a'r Uwch Dîm Gweithredol yn cytuno â'r datganiad a amlinellwyd yn yr Adroddiad Adolygiad wedi'i deilwra ac yn bwysicach na hynny nid oedd yn gweld ei safleoedd fel hyn.

133. Dywedodd y Prif Weithredwr ymhellach fod safleoedd Diwydiannol yr Amgueddfa'n sylfaenol i stori Cymru, ac roedd ganddynt ddyfodol cyffrous o fewn y Portffolio Amgueddfeydd. Roedd cenhedlaeth newydd o staff a oedd wedi'u cyflogi ar y safleoedd hyn wedi ymrwymo i'w rolau a byddent yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd y byddai cenedlaethau'r dyfodol yn helpu i ddiogelu'r rhan hon o'n treftadaeth.

134. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD:**

**(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Eitem 14. Cynllun Dirprwyo**
Noddwr a chyflwynydd: Peter Holt, Prif Swyddog Ariannol Dros Dro

135. Gofynnwyd i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ystyried a chymeradwyo diwygiadau i adrannau 3 o'r Cynllun Dirprwyo fel yr amlinellir yn yr adroddiad:

136. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr bwyso a mesur yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo**

**Eitem 15. Penodiadau i Bwyllgorau'r Bwrdd a Byrddau Cynrychiolwyr – Diweddariad Llafar a'u gosod gerbron**
Noddwr a chyflwynydd: Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

137. Pwrpas yr adroddiad oedd trafod a chymeradwyo penodiadau yn ffurfiol i Bwyllgorau'r Bwrdd a Byrddau Cynrychiolwyr.

138. Wrth ystyried yr eitem hon, gadawodd yr Ymddiriedolwyr canlynol yr ystafell ac ni chymerasant ran mewn unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd: Kate Eden, Rhys Evans, Richard Thomas, ac Ameerah Mai.

139. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ystyried y penodiadau arfaethedig

**PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r penodiadau canlynol.**

140. **Bod Llion Iwan yn cael ei benodi i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gan ddechrau ar 1 Ionawr 2024.**

141. **Bod Richard Houdmont a Spencer John yn cael eu penodi fel aelodau allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) gan ddechrau ar 1 Ionawr 2024.**

142. **Penodi Kate Eden yn Gadeirydd dros dro a bod Ameerah Mai a Llion Iwan i ddod yn aelodau o Grŵp Llywio Mewnol Datblygiad Ailddatblygu Llanberis gan ddechrau ar 1 Ionawr 2024.**

143. **Bod Kate Eden yn cael ei phenodi'n aelod dros dro i Grŵp Llywio Allanol Datblygiad Ailddatblygu Llanberis gan ddechrau ar 1 Ionawr 2024.**

144. **Bod Rhys Evans yn cael ei benodi'n Gadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Cynllunio gan ddechrau ar 1 Ionawr 2024.**

145. **Penodi Richard Thomas yn Gadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Cynghori Ymchwil gan ddechrau ar 1 Ionawr 2024**

**Eitem 16. Adolygu Cofnodion**
Noddwr a chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

146. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023 fel cofnod cywir.

147. Ni chodwyd unrhyw gamau pellach.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023.**

**Eitem 17. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Agored**
Noddwr a chyflwynydd: Mark Petherick, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

148. Cadarnhaodd y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol fod gwaith ar y gweill yn erbyn y camau isod.

- **Eitem 6. Adroddiad chwarterol i'r Bwrdd – Cyflawni yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol –** I drefnu cyfarfod rhwng y Bwrdd ac aelodau Cyngor Celfyddydau Cymru.

149. Cadarnhaodd y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol fod pob cam gweithredu arall o'r cyfarfod wedi'u cwblhau.

**PENDERFYNWYD – nodi'r wybodaeth ddiweddaraf o'r log gweithredu agored.**

**Eitem 18. Cofnodion Pwyllgorau eraill**

41. Cyflwynwyd y cofnodion canlynol

**Eitem 18.1 Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil - 16 Tachwedd 2023 – Cofnodion**

150. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ystyried y cofnodion.

**PENDERFYNWYD: Nodi'r cofnodion.**

**Eitem 18.2 Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau (PPRC) - 20 Gorffennaf 2023 – Cofnodion**

151. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ystyried y cofnodion.

**PENDERFYNWYD: Nodi'r cofnodion.**

**Eitem 18.3 Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) - 20 Gorffennaf 2023 – Cofnodion**

152. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ystyried y cofnodion.

**PENDERFYNWYD: Nodi'r cofnodion.**

**Eitem 18.4 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau (PPRC) ar y Cyd - 21 Medi 2023 – Cofnodion**

153. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ystyried y cofnodion.

**PENDERFYNWYD: Nodi'r cofnodion.**

**Eitem 18.4 Apwyntiadau a Thaliadau (ARC) Cofnodion – 14 Medi 2023 – Cofnodion**

154. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ystyried y cofnodion.

**PENDERFYNWYD: Nodi'r cofnodion.**

**Eitem 18.5 Cofnodion Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen Adolygiad wedi'i deilwra – 24 Hydref 2023 – Cofnodion**

155. Ar ôl i'r Ymddiriedolwyr ystyried y cofnodion.

**PENDERFYNWYD: Nodi'r cofnodion.**

**Eitem 19. Unrhyw Fater Arall**

156. Nid oedd unrhyw fater arall.

157. Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Gweithredol am ddau ddiwrnod o gyfarfodydd cynhyrchiol iawn.

**Diwedd cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd**